Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad 2025 i Gymru

# Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru yn 2024/25

## Cyflwyniad

Yn 2025, cynhaliwyd 15fed arolwg blynyddol y Consortiwm Ymchwil i Addysg Plant Byddar (CRIDE) ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi, ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Bob yn ail, mae'r arolwg yn un safonol ac arolwg sydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2025 yn fersiwn gyda chwestiynau craidd, ac yn ymdrin â'r flwyddyn academaidd 2024/25.[1]

Gwnaed nifer o newidiadau i'r arolwg safonol yn 2025 er mwyn ei symleiddio a lleihau nifer y cwestiynau[2].

Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 14 o wasanaethau yng Nghymru, gan gynrychioli 22 ardal awdurdod a gan roi cyfradd ymateb o 100%.

[1] Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn www.ndcs.org.uk/cride neu ar wefan BATOD yn https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/.
[2] Er enghraifft, mae cwestiynau am blant byddar sydd â mewnblaniadau yn y cochlear, dyfeisiau dargludiad esgyrn, sy'n defnyddio Saesneg fel iaith lafar ychwanegol gartref, sydd newydd gyrraedd y wlad, a chefnogaeth ôl-16 oed wedi'u dileu. Cynhyrchwyd dogfen gyfeirio sy'n crynhoi'r data hwn o flynyddoedd blaenorol ac mae ar gael drwy'r dolenni a ddangosir yn y troednodyn uchod.

**Cynnwys**

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru ..... 4
RHAN 2: Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar a staff arbenigol eraill ..... 14
RHAN 3: Cymorth a ddarperir ..... 22
RHAN 4: Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod ..... 24
RHAN 5: Cefndir a methodoleg ..... 27
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol ..... 28

**Dehongli'r canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa o 31 Ionawr 2025 ymlaen.

Cydnabuwyd yn yr arolwg nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy gydol yr arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn materion penodol a ddaeth i'r amlwg.

Fel y gwelwn yn ddiweddarach, mae’n amlwg bod rhai gwasanaethau dal i brofi anawsterau wrth gael data am blant byddar yn eu hardal ac mae yna anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb drwy gydol yr arolwg. Weithiau gall y gyfradd ymateb i gwestiynau unigol amrywio a gall anomaleddau ymddangos weithiau. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i unrhyw anghysondebau sy’n ymddangos i fod yn arbennig o ryfedd. Ond, nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o’r fath. **Felly, dylid parhau i ddefnyddio’r canlyniadau gyda gofal.** Dylid defnyddio gofal hefyd oherwydd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posib yn narpariaeth data rhwng arolygon.

Noder bod pob canran yn yr arolwg hwn wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Noder hefyd, lle mae carfan o lai na phump o blant yn unrhyw un o’r tablau yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio ‘<5’ yn lle'r ffigur ac wedi atal y ffigur gwirioneddol i sero wrth gyfrifo'r cyfansymiau yn y tabl hwnnw oni nodir fel arall. Dangosir hyn gan serennig yn erbyn y cyfanswm.

## Crynodeb o’r canfyddiadau allweddol

*Nifer y plant byddar yng Nghymru*

- Cofnododd gwasanaethau gyfanswm o 2,147 o blant byddar. Mae'r ffigur hon yn ostyngiad o 80 (4%) o'i gymharu â 2,227 yn 2024.
- Nododd 64% o wasanaethau fod materion neu fylchau hysbys yn eu data ar nifer y plant byddar.

*Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill*

- Roedd o leiaf 64.7 (call) swydd Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar (AYB), a 2.6 (call) (4%) o'r rhain yn wag.
- O'r 62.1 (call) a oedd yn gweithio fel AYB, roedd 98% yn meddu ar y cymhwyster gorfodol, a 2% mewn hyfforddiant.
- Roedd 26.72 (call) swydd staff cymorth arbenigol (ac eithrio AYB) wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan wasanaethau, heb unrhyw swyddi gwag na heb eu llenwi.

*Darpariaethau adnoddau*

- Cofnodwyd bod 19 darpariaeth adnoddau, sef yr un nifer a adroddwyd yn 2024. Gan edrych ar ymlediad darpariaethau adnoddau ledled Cymru, ar gyfartaledd, mae un ddarpariaeth adnoddau i bob 113 plentyn byddar.

*Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod*

- Dywedodd gwasanaethau eu bod wedi derbyn 504 o atgyfeiriadau yn ystod blwyddyn galendr 2024, gostyngiad o'r 564 a gofnodwyd yn arolwg 2024.
- Daeth 8% o atgyfeiriadau i wasanaethau o raglen sgrinio clyw babanod.
- Daeth 15% o atgyfeiriadau i wasanaethau o’r tu allan i raglen sgrinio clyw babanod a chyn i blentyn ddechrau addysg statudol.
- Daeth 76% o atgyfeiriadau i wasanaethau o’r tu allan i raglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl i blentyn ddechrau addysg statudol.

## RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru

### Faint o blant byddar sydd?

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu.[3]

Wrth roi ffigurau ar gyfer nifer y plant byddar sy'n byw yn yr ardal, gofynnwyd yn gyntaf am gyfanswm cyffredinol, ac yna am ddata wedi'u dadansoddi yn ôl lefel byddardod, oedran a lleoliad addysgol. Mewn arolygon CRIDE blaenorol, gwelwyd nad yw rhai gwasanaethau bob amser yn darparu'r data hwn yn gyson; ar adegau, mae gwasanaethau'n rhoi ffigurau wedi'u dadansoddi sy'n arwain at gyfanswm gwahanol i'r un a roddir mewn adran arall o'r arolwg. Lle mae gwahaniaeth, defnyddiwyd y ffigur uchaf sydd ar gael o naill ai'r cyfanswm cyffredinol, y cyfansymiau a roddwyd ar gyfer cwestiynau, neu'r cyfansymiau a gynhyrchir drwy gyfanswm y ffigurau wedi'u dadansoddi, ac wedi cyfeirio at hyn fel y "cyfanswm addasedig". Ond, yn yr arolwg hwn, roedd y rhan fwyaf o'r cyfansymiau'n gyson, ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â lleoliadau addysgol.

Ar sail ymatebion gan bob un o'r 14 gwasanaeth, roedd 2,147 o blant byddar. Mae'r ffigur hwn yn ostyngiad o 80 (4%) o gymharu â 2,227 yn 2024.

*Tabl 1: Ffigurau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar*

| | **Cyfanswm a gynhyrchwyd** |
|---|---|
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn gyffredinol | 2,147 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn ôl grŵp oedran | 2,147 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn ôl lefel byddardod (gan gynnwys lle bo lefel eu byddardod yn 'anhysbys') | 2,147 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn ôl lleoliad addysgol | 2,133*[4] |

[3] Gofynnwyd i wasanaethau i gynnwys: Pob plentyn o dan 20 oed sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, gan ddefnyddio disgryfyddion BSA/BATOD; Pob plentyn byddar, ni waeth a ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth; Plant sy'n mynychu darpariaeth addysg y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eich ardal. At ddibenion adran hon yr arolwg, defnyddiwn y term 'plant' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 20 oed. Noder hefyd defnyddiwn y term byddardod parhaol i gynnwys y plant hynny sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 12 oed (fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dyscinesia blewynnol cychwynnol). Ni ddylid cynnwys plant sydd â byddardod dros dro mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn. O dan fyddardod dargludol dros dro, rydym yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 12 oed.

[4] 2,133 oedd cyfanswm y ffigurau wedi'u dadansoddi a ddarparwyd gan wasanaethau ar ôl atal cyfansymiau llai na 5. Roedd cyfanswm y ffigurau a roddwyd gan wasanaethau yn 2,145.

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 30 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 427 o blant byddar (roedd hwn yn wasanaeth sy'n gweithredu o fewn pum ardal awdurdod lleol). Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw mewn pob ardal gwasanaeth oedd 153.

Mae'r tabl dilynol yn cymharu cyfanswm y plant byddar sy'n byw yng Nghymru â ffigurau o flynyddoedd blaenorol. Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau ag adroddiadau cynharach oherwydd gwahaniaethau yn ansawdd yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb rhwng yr adroddiadau.

*Tabl 2: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros sawl blwyddyn yn olynol*

| | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** |
|---|---|
| CRIDE 2025 | 2,147 |
| CRIDE 2024 | 2,227 |
| CRIDE 2023 (cyfanswm addasedig) | 2,260 |
| CRIDE 2022 (cyfanswm addasedig) | 2,329 |
| CRIDE 2021 (cyfanswm addasedig) | 2,324 |
| CRIDE 2020* | 1,384 |
| CRIDE 2019 (cyfanswm addasedig) | 2,486 |
| CRIDE 2018 | 2,625 |
| CRIDE 2017 (cyfanswm addasedig) | 2,642 |
| CRIDE 2016 | 2,374 |
| CRIDE 2015 (cyfanswm addasedig) | 3,288 |
| CRIDE 2014 | 2,880 |
| CRIDE 2013 (cyfanswm addasedig) | 2,904 |
| CRIDE 2012 (cyfanswm addasedig) | 2,743 |
| CRIDE 2011 (cyfanswm addasedig) | 2,775 |

** Yn 2020, roedd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn.*

**Problemau neu fylchau yn y data**

Nododd naw gwasanaeth (64%) fod yna fylchau neu broblemau hysbys yn y data a ddarparwyd am nifer y plant a phobl ifanc byddar. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth yn unig (50% o'r holl wasanaethau)
- gwasanaethau ddim yn meddu ar ffigurau am blant sydd wedi gadael yr ysgol (50%)
- gwasanaethau ddim yn gallu gwahanu ffigurau am blant â byddardod parhaol neu dros dro (14%)
- gwasanaethau yn meddu ar ddata am blant sy'n defnyddio cymhorthion clyw yn unig (7%)
- arall (21%). Roedd rhai o'r atebion 'arall' a nodwyd yn ffyrdd gwahanol o fynegi'r opsiynau uchod, roedd rhesymau eraill yn cynnwys:

- heb gael ffigurau am rai plant heb gymhorthion clyw (h.y. clust ludiog fân iawn)
- heb gael ffigurau am y rheini sydd wedi gadael ysgol ac nad ydynt mewn lleoliadau addysg bellach.
- heb gael ffigurau am y rhai nad oedd eu rhieni wedi dewis i dderbyn cymorth gan wasanaethau.

Adroddodd pum gwasanaeth (36%) fod dim bylchau neu broblemau hysbys yn y ffigur a ddarparwyd am blant gyda byddardod parhaol sy'n byw yn yr ardal.

Mae maint y problemau a bylchau hyn yn ein hatgoffa bod angen defnyddio'r ffigyrau a gynhyrchwyd gan arolwg CRIDE gyda gofal. Mae'r data yn yr adroddiad hwn ond cystal â'r data sy'n cael eu cadw ac a ddarperir inni, gan awdurdodau lleol, ac mae'r adran uchod yn codi cwestiynau am sut gallwn wella'r data a gesglir am blant byddar. Ar yr un pryd, credwn fod y data a gynhyrchir drwy adroddiadau CRIDE yn parhau i fod ymhlith y ffynonellau data gorau sydd ar gael.

**Beth mae'r arolwg yn dweud wrthym am boblogaeth plant byddar yng Nghymru**

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, lefel o fyddardod, a lleoliad addysg.

*Tabl 3: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal yn ôl oedran*

| **Grwpiau oedran** | **Nifer y plant byddar a nodwyd** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| Blynyddoedd cynnar/ cyn-ysgol | 194 | 9% |
| Oed ysgol gynradd | 896 | 42% |
| Oed ysgol uwchradd | 898 | 42% |
| Ôl-16 a dan 20 oed | 159 | 7% |
| Cyfanswm | 2,147 | 100% |

Ers 2023 mae cyfrannau'r grwpiau oedran wedi newid fel a ganlyn:

- blynyddoedd cynnar/cyn-ysgol – dim newid
- oed ysgol gynradd – cynnydd o ddau bwynt canran
- oed ysgol uwchradd – cynnydd o un pwynt canran
- categori ôl-16 – gostyngiad o dri phwynt canran

Er mwyn cymharu, edrychwyd ar ffigyrau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran[5] i weld a oedd unrhyw wahaniaethau yn y gyfran o blant mewn gwahanol grwpiau oedran. Dylid nodi, yn arolwg CRIDE, ni ofynnwyd am

[5] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland?_gl=1*82qdyz*_ga*MTYyNDUyMjcuMTc2Mzk2NTM4Mw..*_ga_W804VY6YKS*czE3NjM5NzAxMDYkbzIkZzEkd

oedran penodol plant ond yn hytrach a oeddynt o “oed ysgol gynradd”, ayb, felly dylid cymryd y data isod fel bras amcan yn unig. Hefyd, gwyddys bod nifer yr achosion o fyddardod yn amrywio yn ôl oedran, sy’n adlewyrchu’r ffaith bod nifer o blant byddar yn dod yn fyddar wrth iddynt dyfu. O ganlyniad, nid yw’n bosib cymharu’r ffigurau yn y tabl isod yn uniongyrchol.

*Tabl 4: Cyfran y plant a phobl ifanc yn ôl oedran*

| SYG (data canol 2024) | | CRIDE | |
|---|---|---|---|
| **Categori** | **Canran yr holl blant o 0-19 oed** | **Categori** | **Canran o'r cyfanswm** |
| Plant o 0 i 4 oed | 21% | Blynyddoedd cynnar/cyn-ysgol | 9% |
| Plant o 5 i 11 oed | 35% | Oed ysgol gynradd (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) | 42% |
| Plant o 12 i 16 oed | 27% | Oed ysgol uwchradd (blwyddyn 7 i 11) | 42% |
| Pobl ifanc o 17 i 19 oed | 16% | Ôl-16 ac yn iau nag 20 oed | 7% |

*Tabl 5: Nifer y plant sy’n byw yn yr ardal, yn ôl lefel byddardod*

| Lefel o fyddardod | Nifer y plant byddar a nodwyd | Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| Unochrol | 500 | 24% |
| Mân | 530 | 25% |
| Cymedrol | 682 | 32% |
| Difrifol | 186 | 9% |
| Llwyr | 215 | 10% |
| Cyfanswm (ac eithrio 'anhysbys') | 2,113 | |
| Anhysbys | 34 | |
| Cyfanswm (gan gynnwys 'anhysbys') | 2,147 | |

Ers arolwg 2023, mae cyfran y plant a phobl ifanc:

- gyda byddardod unochrog wedi cynyddu o ddau bwynt canran
- gyda lefel fân o fyddardod heb newid
- gyda lefel gymedrol o fyddardod wedi gostwng o un pwynt canran
- gyda lefel ddifrifol o fyddardod heb newid
- gyda lefel ddwys o fyddardod wedi gostwng o un pwynt canran.

Yn seiliedig ar adborth gan wasanaethau, gwnaed newid i'r cwestiwn am blant byddar mewn lleoliadau addysg yn arolwg 2025, er mwyn cynnwys opsiwn newydd i wasanaethau roi gwybod inni am blant byddar mewn darpariaethau adnoddau[6] nad ydynt yn benodol ar gyfer plant byddar. Mae hyn yn golygu na fydd yn bosib cymharu'r ffigurau yn uniongyrchol gyda'r rhai o flynyddoedd blaenorol.

[6] Yn arolwg CRIDE, yn hanesyddol rydym wedi defnyddio'r term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd ag uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc byddar, ni waeth a yw staff y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol.

*Tabl 6: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lleoliad addysgol*

| **Math o ddarpariaeth addysgol** | | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol** | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 71 | 3% |
| | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 97 | 5% |
| | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 16 | 1% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 1,523 | 71% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | 10 | 0% |
| | Darpariaeth adnoddau (ar gyfer plant byddar yn benodol) mewn ysgolion prif ffrwd | 116 | 5% |
| | Darpariaeth adnoddau (nid ar gyfer plant byddar yn benodol) mewn ysgolion prif ffrwd | 77 | 4% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (a ariennir gan y wladwriaeth neu nas cynhelir) | 141 | 7% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (heb gynnwys chweched dosbarth ysgolion) | 53 | 2% |
| **Tu allan i'r awdurdod lleol** | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | <5* | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 16 | 1% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | <5* | 0% |
| | Darpariaeth adnoddau (ar gyfer plant byddar yn benodol) mewn ysgolion prif ffrwd | <5* | 0% |
| | Darpariaeth adnoddau (nid ar gyfer plant byddar yn benodol) mewn ysgolion prif ffrwd | 0 | 0% |
| | Ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar yn benodol (a ariennir gan y wladwriaeth neu nas cynhelir) | 8 | 0% |
| | Ysgol arbennig arall, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (a ariennir gan y wladwriaeth neu nas cynhelir) | <5* | 0% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (heb gynnwys chweched dosbarth ysgolion) | 5 | 0% |
| **Arall** | NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig) | 0 | 0% |
| | Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion) | <5* | 0% |
| **Cyfanswm (ac eithrio 'anhysbys')** | | 2,133* | |
| Anhysbys | | 0 | |
| **Cyfanswm (gan gynnwys 'anhysbys' a ffigurau wedi'u hatal)** | | 2,145[7] | |

[7] 2,145 oedd cyfanswm y ffigurau wedi'u dadansoddi, 2,147 oedd cyfanswm y cyfansymiau a roddwyd gan y gwasanaethau.

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r un wybodaeth ag uchod ond heb wahanu'r ffigurau yn ôl a ydynt o fewn neu'r tu allan i'r awdurdod lleol**,** ac mae hefyd yn dangos canrannau cryno ar gyfer plant byddar oed ysgol yn unig.

*Tabl 7: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol*

| **Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth a ydynt o fewn neu'r tu allan i'r awdurdod lleol)** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm** | **Canran o'r cyfanswm o blant oedran ysgol (h.y. ac eithrio plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl-16)** |
|---|---|---|---|
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – plant cyn-ysgol | 71 | 3% | |
| Lleoliad blynyddoedd cynnar – plant cyn-ysgol | 97* | 5% | |
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 16 | 1% | 1% |
| Darpariaeth brif ffrwd (gan gynnwys ysgolion annibynnol ac a ariennir gan y wladwriaeth) | 1,549* | 73% | 81% |
| Darpariaeth adnoddau (ar gyfer plant byddar yn benodol) mewn ysgolion prif ffrwd | 116* | 5% | 6% |
| Darpariaeth adnoddau (nid ar gyfer plant byddar yn benodol) mewn ysgolion prif ffrwd | 77 | 4% | 4% |
| Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar | 8 | 0% | 0% |
| Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol | 141* | 7% | 7% |
| Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio chweched dosbarth ysgolion) | 58 | 3% | |
| Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion, NEET, anhysbys) | <5* | 0% | |
| Cyfanswm | 2,133* | 100% | |
| Cyfanswm (ac eithrio plant cyn-ysgol a darpariaeth ôl-16 arall ac 'arall') | 1,907* | | 100% |

O gymharu â'r ffigurau ar gyfer plant a phobl ifanc fyddar oed ysgol yn 2023, mae'r cyfrannau wedi newid fel a ganlyn:

- mewn darpariaeth brif ffrwd (gan gynnwys ysgolion annibynnol ac a ariennir gan y wladwriaeth) wedi aros yr un peth

- mewn darpariaethau adnoddau (gan gynnwys y rhai sy’n benodol ar gyfer plant byddar a’r rhai nad ydynt yn benodol ar gyfer plant byddar) mewn ysgolion prif ffrwd wedi cynyddu o 2%. Ond, fel y nodwyd yn gynharach, oherwydd newid yn yr opsiynau a gynigiwyd yn yr arolwg, nid yw'n bosib cymharu data 2025 yn uniongyrchol gyda data 2023
- mewn ysgolion arbennig eraill nad ydynt yn benodol ar gyfer plant byddar wedi gostwng o 2%
- yn cael eu cefnogi gartref – plant oed ysgol sy’n cael eu haddysgu gartref wedi aros yr un peth.

*Tabl 8: Dadansoddiad o’r mathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu'r tu allan i awdurdod lleol y cartref (lle bo’n hysbys)*

| Math o ddarpariaeth addysgol | Nifer y plant byddar | Canran o’r cyfanswm |
|---|---|---|
| O fewn yr awdurdod lleol cartref | 2,104 | 99% |
| Y tu allan i’r awdurdod lleol cartref | 29* | 1% |
| Cyfanswm (ac eithrio ‘nid yw’n hysbys’ ac ‘arall’) | 2,133* | |

**Amlder anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Nododd deuddeg gwasanaeth fod nifer y plant byddar sydd ag angen dysgu ychwanegol[8] arall yn 620[9]. Mae hyn yn 29% o’r cyfanswm o 2,147 o blant byddar. Mae hyn yn gynnydd o 24% o gymharu â 2024.

**Ieithoedd a ddefnyddir**

Gofynnwyd i wasanaethau i ddweud wrthym am yr ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliadau addysgol eraill. Dylid defnyddio gofal wrth edrych ar ganlyniadau'r cwestiwn hwn. Mae hyn oherwydd nododd un gwasanaeth 'anhysbys' am bob un o'r plant yn ei ardal.

[8] Diffinnir hyn fel unrhyw angen dysgu ychwanegol arall ar wahân i fyddardod, ni waeth a yw'n cael ei gydnabod fel 'prif' angen neu angen ‘eilaidd’.
[9] Ni ymatebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn a nododd gwasanaeth arall nad oeddent yn casglu'r data hwn.

*Tabl 9: Nifer y plant byddar, yn ôl pa ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliad addysgol arall*

| **Iaith** | **Cyfanswm** | **Canran o'r ymatebion (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Saesneg llafar | 1,221 | 72% |
| Cymraeg llafar | 303 | 18% |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | 28 | 2% |
| Saesneg llafar ynghyd â chymorth arwyddion | 81 | 5% |
| Cymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddion | 0 | 0% |
| Cyfuniad arall | 63 | 4% |
| Cyfanswm hysbys | 1,696 | |
| Cyfanswm anhysbys | 451 | |
| Cyfanswm (gan gynnwys anhysbys) | 2,147[10] | |

O gymharu â'r data o 2023 pan ofynnwyd y cwestiwn hwn diwethaf, mae cyfrannau'r plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio:

- Saesneg llafar wedi cynyddu o ddau bwynt canran
- Cymraeg llafar wedi aros yr un peth
- BSL wedi gostwng o un pwynt canran
- Saesneg llafar ynghyd â chymorth arwyddion wedi gostwng o ddau bwynt canran
- Cymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddion wedi aros yr un peth
- cyfuniad arall wedi aros yr un peth.

Mae'n rhaid pwysleisio nad yw'r defnydd o iaith lafar/arwyddion mewn addysg o reidrwydd yn adlewyrchu'r iaith lafar/arwyddion a ddefnyddir yn y cartref, na ddewisiadau'r plentyn ei hun.

**Prydau ysgol am ddim**

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y plant byddar y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Darparodd wyth gwasanaeth ffigur fel ymateb i'r cwestiwn hwn, gan adrodd cyfanswm o 288 o blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cyfateb i 34% o gyfanswm y plant byddar a nodwyd yn yr wyth ardal hyn. Ond, nododd tri o'r wyth gwasanaeth nad oedd y data a roddwyd ganddynt o reidrwydd yn fanwl gywir. Os ydym yn cynnwys dim ond y data gan y pum gwasanaeth nad oeddent wedi nodi y gallai'r data fod yn anghywir, adroddwyd bod 165 o blant y gwyddys eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef 37% o gyfanswm y pum ardal hyn.

[10] 2,147 oedd cyfanswm y ffigurau wedi'u dadansoddi a ddarparwyd gan wasanaethau. Cyfanswm y cyfansymiau a roddwyd gan y gwasanaethau oedd 1,720.

Nodwyd gan sawl gwasanaeth fod pob plentyn ysgol gynradd yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ond, nid oedd bob amser yn glir os a sut y cafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffigurau a ddarparwyd.

**Sut mae ffigurau CRIDE 2025 yn cymharu â ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion?**

Oherwydd y gwahaniaethau yn y ffordd y mae data wedi'u casglu a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd, argymhellwn fod y ffigurau dilynol yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer trafodaeth a dadansoddiad pellach, yn hytrach nag er mwyn cyrraedd casgliadau pendant.

Adroddodd gwasanaethau fod 2,147 o blant byddar 0 i 19 oed yng Nghymru yn Arolwg CRIDE 2025. Mae ffigurau Cyfrifiad Ysgolion Llywodraeth Cymru[11] yn dangos bod 1,135 o ddisgyblion byddar[12], a 340 o ddisgyblion â nam amlsynhwyraidd. Dylid nodi bod data Llywodraeth Cymru yn dangos sawl gwaith y nodwyd pob math o angen dysgu ychwanegol.

Cydnabyddwn fod ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion yn bennaf yn cynnwys disgyblion o 5 i 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd, ysgolion a gynhelir ac annibynnol, tra bo ffigurau CRIDE uchod ar gyfer plant 0 i 19 oed. Mae ffigur Cyfrifiad Ysgolion o 1,135 o ddisgyblion byddar yn cynrychioli 63% o'r 1,794 o blant a phobl ifanc oed cynradd ac uwchradd sydd â byddardod parhaol a adroddwyd gan wasanaethau i CRIDE.

[11] https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ionawr-2025. Mae'r Cyfrifiad Ysgolion yn defnyddio'r term 'nam ar y clyw'; yn yr adroddiad hwn rydym wedi newid y term hwn i 'byddardod'.

[12] Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru yn talgrynnu rhifau i'r pump agosaf. Mae hefyd yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan bod dychweliadau yn cael eu hawdurdodi gan brifathrawon a'u dilysu gan awdurdodau lleol.

## RHAN 2: Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar a staff arbenigol eraill

Gofynnwyd faint o Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar (AYB) a oedd yn gweithio mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys y rheini mewn swydd beripatetig, yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau[13] a/neu'n gweithio mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Cawsom fod:

- yn gyffredinol roedd o leiaf 62.1 (call) athro yn gweithio fel AYB yng Nghymru
- llenwyd 98% o'r swyddi hyn gan AYB hollol gymwysedig, a 2% gan athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol
- ar adeg cwblhau'r arolwg, adroddwyd bod yna o leiaf 2.6 (call) swydd wag
- os ychwanegir y swyddi gwag at gyfanswm yr AYB mewn cyflogaeth, byddai hyn yn dangos yr oedd o leiaf 64.7 (call) swydd AYB, gyda 4% ohonynt yn wag.

Mae'r tabl dilynol yn darparu dadansoddiad yn ôl math y lleoliad.

[13] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd ag uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau yn benodol ar gyfer plant byddar, ni waeth a yw staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol.

*Tabl 10: Nifer yr AYB mewn cyflogaeth yn gyffredinol[14]*

| | **Yn gweithio'n bennaf fel AYB peripatetig** (cyfanswm a chanran) | **Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau** (cyfanswm a chanran) | **Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol** (cyfanswm a chanran) | **Yn gweithio'n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol** (cyfanswm a chanran) | **Swyddi AYB yn gyffredinol** (cyfanswm a chanran) |
|---|---|---|---|---|---|
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol | 34.8 (100%) | 23.1 (94%) | 1 (100%) | 1.8 (100%) | 60.7 (98%) |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 0 (0%) | 1.4 (6%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1.4 (2%) |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Cyfanswm - mewn cyflogaeth | 34.8 (100%) | 24.5 (100%) | 1 (100%) | 1.8 (100%) | 62.1 (100%) |
| Swyddi gwag | 1.6 (4%) | 1 (4%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 2.6 (4%) |
| Cyfanswm – swyddi | 36.4 (100%) | 25.5 (100%) | 1 (100%) | 1.8 (100%) | 64.7 (100%) |

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r uchod drwy dangos niferoedd yr AYB mewn cyflogaeth yn ôl eu rôl yn unig.

[14] Mae canrannau ar gyfer AYB sydd â'r cymhwyster gorfodol, Athrawon sydd mewn hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd, ac Athrawon Cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt mewn hyfforddiant, yn seiliedig ar y cyfanswm sydd mewn swydd. Mae canrannau ar gyfer swyddi gwag yn seiliedig ar gyfanswm yr holl swyddi.

*Tabl 11: Nifer yr AYB mewn cyflogaeth yn gyffredinol yn ôl rôl*

| | **Cyfanswm AYB mewn cyflogaeth** | **Canran** |
|---|---|---|
| Gweithio yn bennaf fel AYB peripatetig | 34.8 | 56% |
| Gweithio yn bennaf mewn darpariaeth adnoddau | 24.5 | 39% |
| Gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | 1 | 2% |
| Gweithio'n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | 1.8 | 3% |
| Cyfanswm y ffigurau a nodwyd | 62.1 | 100% |

Casglwyd ffigurau am AYB mewn rhaglenni mewnblaniadau yn y cochlear mewn arolwg ar wahân. Adroddwyd bod o leiaf 1 (call) AYB cwbl gymwysedig mewn swydd, a nodwyd bod 0.8 yn wag a heb eu llenwi.[15]

**Newidiadau yn nifer yr AYB**

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y newidiadau yn nifer yr AYB cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

Fel y gosodwyd yn gynharach, wrth wneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, dylid nodi gall anghysondebau weithiau ymddangos yn yr ymatebion. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ofyn am unrhyw anghysondebau sy'n ymddangos yn arbennig o ryfedd; ond, nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o'r fath.

[15] Roedd y 1.8 (call) swydd hyn ar gyfer Rhaglen Mewnblaniad Cochleaidd De Cymru.

*Tabl 12: Newidiadau yn nifer yr AYB o flwyddyn i flwyddyn*[16]

| | AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth neu mewn hyfforddiant | Nifer yr athrawon yn gweithio fel AYB mewn cyflogaeth | Nifer y swyddi gwag | Nifer y swyddi AYB (gan gynnwys swyddi gwag) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2025 | 60.7 | 62.1 | 62.1 | 2.6 | 64.7 |
| 2024 | 60.8 | 61.8 | 62.8 | 2 | 64.8 |
| 2023 | 59.7 | 64.3 | 64.3 | 1.6 | 65.9 |
| 2022 | 57.8 | 62.8 | 62.8 | 2.4 | 65.2 |
| 2021 | 54.4 | 58.8 | 60 | 2.4 | 62.4 |
| 2019 | 57 | 66 | 66 | 0 | 66 |
| 2018 | 56.425 | 61.825 | 61.825 | 1 | 62.825 |
| 2017 | 57.63 | 60.33 | 60.73 | 3.9 | 64.63 |
| 2016 | 65.45 | 69.25 | 69.25 | 1 | 70.25 |
| 2015 | 69.86 | 73.66 | 74.26 | 0.8 | 75.06 |
| 2014 | 67 | 69.2 | 70.2 | 0.6 | 70.8 |
| 2013 | 66.5 | 71.5 | 71.5 | 3 | 74.5 |
| 2012 | 91.75 | 100.55 | 100.55 | 0 | 100.55 |
| 2011 | 71.95 | 73.95 | 75.95 | 0 | 75.95 |

*(Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg)*

*Tabl 13: Newid canrannol yn nifer yr AYB*

| | Newid canrannol dros y 14 mlynedd diwethaf (rhwng 2011 a 2025) | Newid canrannol dros y flwyddyn ddiwethaf (rhwng 2024 a 2025) |
|---|---|---|
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | -16% | 0% |
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth **neu** mewn hyfforddiant | -16% | 0% |
| Nifer yr athrawon yn gweithio fel AYB mewn cyflogaeth | -18% | -1% |
| Nifer y swyddi AYB (gan gynnwys swyddi gwag) | -15% | 0% |

[16] Yn 2017, dechreuasom ofyn am AYB mewn colegau neu ysgolion arbennig nad ydynt ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol. Felly nid yw'n bosib cymharu yn uniongyrchol ffigurau cyn/ar ôl hyn. Ond, mae'n werth nodi nad oedd cynnwys y ffigurau hyn yn arwain at gynnydd amlwg yn nifer yr AYB.

Yn 2024, roedd un athro yn gweithio fel AYB ond heb y cymhwyster gorfodol ac nid mewn hyfforddiant. Ni nodwyd dim un yn y categori hwn yn arolwg 2025. Mae hyn yn esbonio yn rhannol pam mae nifer y swyddi wedi gostwng o 1% ers 2024.

Yn nhermau unrhyw newidiadau o AYB mewn cyflogaeth mewn rolau penodol:

- Mae'r cyfanswm o 34.8 (call) AYB peripatetig wedi codi ychydig bach o 34.7 yn 2024. Ers 2011, bu gostyngiad o 17% o 42 AYB peripatetig.
- Mae'r cyfanswm o 24.5 (call) o AYB mewn darpariaethau adnoddau ychydig yn is na'r 24.7 (call) yn 2024. Ers 2011, pan oedd 34 o AYB mewn swydd mewn darpariaethau adnoddau, bu gostyngiad o 28%.
- Adroddwyd bod 1 (call) AYB gyda'r cymhwyster gorfodol yn gweithio'n bennaf mewn ysgol arbennig neu goleg nad yw'n benodol ar gyfer plant neu bobl ifanc fyddar. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â 2 (call) yn 2024.
- Adroddwyd bod 1.8 (call) AYB gyda'r cymhwyster gorfodol yn gweithio'n hyblyg rhwng gwahanol rolau/lleoliadau. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r 1.4 (call) AYB a adroddwyd eu bod yn gweithio yn y modd hwn yn 2024.

Cawsom fod 36% o wasanaethau wedi gweld cynnydd yn nifer yr AYB mewn cyflogaeth rhwng 2024 a 2025, 43% o wasanaethau heb weld unrhyw newid a 21% o wasanaethau wedi gweld gostyngiad.

## Recriwtio AYB

Yn nhermau recriwtio AYB dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Ceisiodd chwe gwasanaeth (43%) recriwtio AYB dros y flwyddyn ddiwethaf, o'r rhain:
  - Llenwodd pedwar gwasanaeth (80% o'r gwasanaethau a ddarparodd ateb)[17] bob rôl
  - Llenwodd un gwasanaeth (20%) rai rolau, er nad pob rôl.

Adroddodd pob gwasanaeth ac eithrio un[18] eu bod wedi gallu penodi AYB cymwysedig i'r rôl. Nododd y gwasanaeth nad oedd yn gallu penodi AYB cymwysedig fod y swyddi gwag wedi'u hail-hysbysebu i gynulleidfaoedd ehangach dair gwaith. Yr effaith ar blant byddar a'u teuluoedd yn yr ardal oedd nad oedd gan blant byddar mewn darpariaeth adnoddau AYB cymwysedig, gyda'r gwasanaeth peripatetig ond yn cefnogi anghenion offer, gan nad oedd asesiad na chymorth o fewn cylch gwaith y gwasanaeth peripatetig.

## Cymwysterau ychwanegol a chefndiroedd AYB

Adroddodd gwasanaethau fod:

[17] Rhoddodd pum gwasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn. Ni roddodd un gwasanaeth ateb gan eu bod yn gweithio drwy'r broses recriwtio ar adeg yr arolwg.
[18] Darparodd pum gwasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.

- Roedd 2.5 (call) AYB, yn gweithio mewn rôl beripatetig, yn meddu ar gymhwyster arbenigol ôl-raddedig ychwanegol mewn cefnogaeth blynyddoedd cynnar ar gyfer plant byddar. Mae hyn yn cyfateb i 7% o'r AYB sy'n gweithio mewn rôl beripatetig, ac i 4% o'r holl AYB mewn cyflogaeth
- Roedd 1.2 (call) AYB, yn gweithio mewn rôl beripatetig, yn meddu ar gymhwyster arbenigol ychwanegol fel awdiolegydd addysgol. Mae hyn yn cyfateb i 3% o'r AYB sy'n gweithio mewn rôl beripatetig, ac i 2% o'r holl AYB mewn cyflogaeth
- Roedd 15.5 (call) AYB yn gallu cefnogi plant byddar drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 25% o'r holl AYB mewn cyflogaeth. O'r rhain:
    - Roedd 10.5 (call) yn gweithio'n bennaf mewn rôl beripatetig (30% o'r AYB sy'n gweithio mewn rôl beripatetig)
    - Roedd 4.5 (call) yn gweithio'n bennaf mewn darpariaethau adnoddau (18% o'r AYB sy'n gweithio mewn darpariaethau adnoddau)
    - Roedd 0.5 (call) yn gweithio'n hyblyg rhwng gwahanol rolau/lleoliadau (28% o'r AYB sy'n gweithio'n hyblyg).

Roedd arolwg CRIDE 2025 yn cynnwys cwestiynau newydd am sgiliau iaith BSL AYB, ac a oedd AYB eu hunain yn fyddar.

- Roedd 20.9 (call) AYB yn defnyddio BSL fel iaith gyntaf neu'n meddu ar gymhwyster Lefel 3 (neu gyfwerth) neu uwch mewn Iaith Arwyddion Prydain. Mae hyn yn cyfateb i 34% o'r holl AYB mewn cyflogaeth. O'r rhain:
    - Roedd 20.9 (call) AYB yn gweithio'n bennaf mewn rôl beripatetig (30% o'r AYB sy'n gweithio mewn rôl beripatetig)
    - Roedd 9.5 (call) AYB yn gweithio'n bennaf mewn darpariaethau adnoddau (39% o'r AYB sy'n gweithio mewn darpariaethau adnoddau)
    - Roedd 1 (call) yn gweithio'n hyblyg rhwng gwahanol rolau/lleoliadau (56% o'r AYB sy'n gweithio'n hyblyg).
- Roedd 7 (call) AYB yn fyddar eu hunain. Mae hyn yn cyfateb i 11% o'r holl AYB mewn cyflogaeth.

### Staff arbenigol eraill

Cawsom fod 26.72 (call) o staff cymorth arbenigol, heblaw am AYB, yn cael eu cyflogi gan wasanaethau i gefnogi plant byddar. Ni nodwyd unrhyw swyddi gwag. Mae hyn yn golygu bod 26.72 (call) o swyddi staff cefnogi arbenigol, a bod dim un ohonynt yn wag.

*Tabl 14: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl rôl*

| | **Cyfanswm y swyddi** | | **...y nifer o'r rheini sy'n staff mewn cyflogaeth** | | **...y nifer o'r rheini sy'n swyddi gwag neu heb eu llenwi** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda swyddi** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda swyddi** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** |
| Cynorthwywyr addysgu/ Cynorthwywyr cymorth ystafell ddosbarth/ Cynorthwywyr cymorth dysgu, ayb | 21.75 (100%) | 12 | 21.75 (100%) | 12 | 0 (0%) | 0 |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu ayb | 3 (100%) | 1 | 3 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 |
| Dehonglwyr BSL/Saesneg wedi'u cofrestru gyda'r NRCPD | 0 (100%) | 0 | 0 (100%) | 0 | 0 (0%) | 0 |
| Hyfforddwyr byddar / Modelau rôl byddar/ Hyfforddwyr iaith arwyddion ayb | 0.87 (100%) | 2 | 0.87 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 |
| Awdiolegwyr addysgol/ Awdiolegwyr mewn Addysg **nad ydynt** hefyd yn meddu ar gymhwyster fel AYB | 0 (100%) | 0 | 0 (100%) | 0 | 0 (0%) | 0 |
| Technegwyr ayb | 1 (100%) | 2 | 1 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 0.1 (100%) | 1 | 0.1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd/ Swyddogion cyswllt | 0 (100%) | 0 | 0 (100%) | 0 | 0 (0%) | 0 |
| Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant a phobl ifanc byddar | 0 (100%) | 0 | 0 (100%) | 0 | 0 (0%) | 0 |
| Cyfanswm | 26.72 (100%) | | 26.72 (100%) | | 0 (0%) | |

Mae nifer y swyddi wedi gostwng ychydig o 28.7 (call) yn 2024.[19]

Gofynnwyd wedyn, o'r staff arbenigol eraill hyn a gyflogir yn uniongyrchol gan y gwasanaethau, faint ohonynt oedd yn fyddar eu hunain. Adroddwyd fod llai na 5 (call) staff yn fyddar eu hunain.

Ni adroddwyd bod staff arbenigol eraill mewn rolau eraill yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaethau peripatetig. Sylwodd rhai gwasanaethau ar staff a gyflogir yn ehangach, gan gynnwys:

- Gweithwyr cymorth cyfathrebu
- Swyddogion Cymorth Arbenigol Uwch
- Swyddogion Cymorth Dysgu
- Cynorthwywyr Cymorth Anghenion Arbennig.

[19] Adroddodd un gwasanaeth yn wreiddiol yn eu hymateb ar gyfer 2025 am rai aelodau o staff yr oeddent hefyd wedi'u hadrodd yn flaenorol. Gan fod y gwasanaeth wedi nodi eleni fod y staff hyn wedi'u secondio o'r ddarpariaeth adnoddau ac yn cael eu defnyddio'n hyblyg rhwng y gwasanaeth peripatetig a'r ddarpariaeth adnoddau, ni chawsant eu cynnwys yn y ffigurau eleni. Gall hyn gyfrannu'n rhannol at y gostyngiad yn nifer y swyddi.

## RHAN 3: Cymorth a ddarperir

Dywedodd pob un o'r 14 gwasanaeth, ac eithrio un, (93%) fod y gwasanaeth wedi'i leoli o fewn yr awdurdod lleol. Dywedodd un gwasanaeth (7%) eu bod yn wasanaeth consortiwm wedi'i gynnal gan un awdurdod lleol.

### Nifer y darpariaethau adnoddau

Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd ag unrhyw uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau yn benodol ar gyfer plant byddar, ni waeth a yw staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol.

*Tabl 15: Nifer y darpariaethau adnoddau*

| | **Wedi'i rheoli gan yr awdurdod lleol** | **Wedi'i rheoli gan yr ysgolion** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau adnoddau ar gyfer plant oed ysgol gynradd | 3 | 6 | 9 |
| Darpariaethau adnoddau ar gyfer plant oed ysgol uwchradd | 4 | 6 | 10 |
| Cyfanswm | 7 | 12 | 19 |

Mae'r cyfanswm o 19 darpariaeth adnoddau ledled Cymru yr un fath ag yn 2024. Cawsom fod:

- gan naw gwasanaeth (64%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oed ysgol gynradd yn eu hardal
- gan naw gwasanaeth (64%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oed ysgol uwchradd yn eu hardal.

*Tabl 16: Nifer y darpariaethau adnoddau dros amser*[20]

| **Blwyddyn** | **Nifer y darpariaethau adnoddau** |
|---|---|
| 2025 | 19 |
| 2024 | 19 |
| 2023 | 19 |
| 2022 | 19 |
| 2021 | 20 |
| 2019 | 24 |
| 2018 | 25 |
| 2017 | 25 |
| 2016 | 24 |

[20] Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg

Edrychwyd hefyd ar nifer y darpariaethau adnoddau yn ôl nifer y plant byddar. Bwriad hyn yw dangos dosbarthiad y darpariaethau adnoddau ledled Cymru, mewn perthynas â phoblogaeth gyffredinol plant byddar. Cawsom fod, ar gyfartaledd, un ddarpariaeth adnoddau am bob 113 o blant byddar. Yn 2024, roedd un ddarpariaeth adnoddau am bob 117 o blant byddar.

**Nid** yw hyn yn fesur o nifer y lleoedd sydd ar gael neu'r nifer o blant byddar unigol sydd wedi'u chofrestru ym mhob darpariaeth; bydd y ffigurau ar gyfer lleoedd neu blant byddar sydd wedi'u chofrestru yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth. Dylid cofio hefyd bod yr wybodaeth y gall gwasanaethau ei darparu am nifer y plant byddar yn eu hardal yn amrywio yn nhermau bylchau a materion hysbys.

Mae’r atodiad yn darparu ffigurau ar ddosbarthiad y darpariaethau adnoddau yn ôl poblogaeth leol y plant byddar ym mhob awdurdod lleol.

## RHAN 4: Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt dros flwyddyn galendr 2024.

*Tabl 17: Atgyfeiriadau*

| | Nifer a chanran yr atgyfeiriadau | Nifer y gwasanaethau [21] |
|---|---|---|
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod | 41 (8%) | 12 |
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a **chyn** iddynt ddechrau addysg statudol | 78 (15%) | 12 |
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac **ar ôl** iddynt ddechrau addysg statudol | 385 (76%) | 12 |
| Cyfanswm y ffigyrau a roddwyd | 504[22] (100%) | |

Yn nhermau newidiadau ers arolwg 2024:

- mae cyfanswm yr atgyfeiriadau dros y flwyddyn galendr wedi gostwng o 564 i 504
- mae cyfran yr atgyfeiriadau drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod wedi cynyddu o 7% i 8%
- mae atgyfeiriadau ar gyfer plant a dderbyniodd adnabyddiaeth y tu allan i sgrinio clyw babanod a chyn addysg statudol wedi aros yr un peth ar 15%
- mae atgyfeiriadau ar gyfer plant a dderbyniodd adnabyddiaeth y tu allan i sgrinio clyw babanod ond ar ôl iddynt ddechrau addysg statudol wedi gostwng o 78% i 76%.

Wedyn gofynnwyd i'r gwasanaethau am drefniadau ar gyfer ymweliadau cyntaf gan AYB am atgyfeiriadau yn ystod gwyliau'r haf.

[21] Dyma nifer y gwasanaethu a ddarparodd ffigur dros 0.
[22] 504 oedd cyfanswm y ffigurau wedi'u dadansoddi a roddwyd gan wasanaethau. Cyfanswm y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 489. Darparodd un gwasanaeth ffigurau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod yn unig ac nid am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod.

*Tabl 18: Ymweliadau cyntaf gan AYB am atgyfeiriadau yn ystod gwyliau'r haf*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran y gwasanaethau** |
|---|---|---|
| Trefniadau llanw ar waith i alluogi AYB i ddarparu ymweliad yn ystod gwyliau’r haf o fewn yr un amserlen ag atgyfeiriad yn ystod y tymor | 1 | 7% |
| Trefniadau llanw ar waith i alluogi AYB i ddarparu ymweliad yn ystod gwyliau’r haf ond nid o reidrwydd o fewn yr un amserlen ag atgyfeiriad yn ystod y tymor | 5 | 36% |
| Mae AYB yn ymweld â nhw cyn gynted ag sy’n bosib ar ôl gwyliau’r haf | 4 | 29% |
| Arall | 4 | 29% |
| Cyfanswm | 14 | |

Roedd sylwadau ar drefniadau eraill yn cynnwys:

- pennaeth y gwasanaeth yn gweithio drwy’r flwyddyn ac, os ydynt ar wyliau, yn ymweld â’r teulu fel blaenoriaeth ar ôl dychwelyd ac yn y cyfamser rhoddir gwybod i Awdioleg
- AYB yn gwneud ymweliad yn ystod gwyliau’r haf yn ôl eu disgresiwn eu hunain.

**Problemau neu heriau**

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd unrhyw broblemau neu heriau, heblaw’r rhai y gallent fod eisoes wedi’u nodi yn unman arall yn yr ymatebion i’r arolwg, a oedd wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf a oedd wedi cael effaith sylweddol ar y gefnogaeth y gallent ei darparu i blant byddar. Roedd y rhain yn cynnwys

- Anawsterau staffio yn ymwneud â:
  - recriwtio AYB cymwysedig (gan gynnwys AYB gyda’r Gymraeg fel iaith gyntaf)
  - ymddeoliad staff yn arwain at fylchau dros dro neu ostyngiadau mewn rheolaeth neu ddarpariaeth gwasanaeth
  - swyddi AYB yn cael eu rhewi am gyfnodau os bydd AYB wedi gofyn am drefniadau gweithio hyblyg
  - recriwtio Cynorthwywyr Cymorth Dysgu cymwysedig
  - pryderon ynghylch hyfforddi a chadw cynorthwywyr sydd â lefel BSL uchel
  - prinder cynorthwywyr wrth gefn hyfforddedig sydd ar gael i ddarparu sesiynau llanw
  - yr angen i ‘ddiogelu’r dyfodol’ o ran y gweithlu arbenigol, o ystyried bod proffil oedran AYB yn cynyddu.

- Cyllidebau ysgolion o dan bwysau a niferoedd uchel o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Nifer cynyddol o atgyfeiriadau gan awdioleg ar gyfer plant sydd wedi derbyn cymhorthion clyw.
- Plant sydd ag anghenion sy’n dod i’r amlwg yn effeithio ar y gefnogaeth y mae gwasanaeth yn gallu ei darparu.
- Nifer cynyddol o blant sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU), sy’n arwain at fwy o gyfarfodydd, gwaith papur a gweinyddu.
- Diffyg eglurder ynghylch cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ôl-16 oherwydd diffyg cyllid ychwanegol ar gyfer y gweithlu.

## RHAN 5: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar, Cymdeithas Brydeinig Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar Cymru, *Frank Barnes School for Deaf Children*, *Longwill School for the Deaf*, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, *Royal School for the Deaf Derby,* Coleg Prifysgol Llundain, Prifysgol Caeredin, cyn-benaethiaid gwasanaethau neu ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn byddardod, a gwasanaethau addysg arbenigol i blant byddar yn Swydd Caergrawnt, Camden, Caint, Leeds a *STARS Sensory Support Service* (Middlesbrough, Stockton, Hartlepool, Redcar a Cleveland).

Mae'r arolwg yn newid o flwyddyn i flwyddyn rhwng arolwg safonol ac arolwg gyda chymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2025 yn fersiwn safonol.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2025 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Lle na fu ymateb erbyn 14 Mawrth, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn gan aelodau CRIDE. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r gyfradd ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 19: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaeth*

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – 14 Mawrth 2025 | 11 | 11 |
| Yr ail ddyddiad cau yn dilyn cyswllt gan grŵp llywio CRIDE | 3 | 14 |

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb drwy gwblhau arolwg ar-lein. Os nad oeddent yn gallu gwneud hyn, roedd yn bosib iddynt ddefnyddio dogfen Word o'r arolwg. Ymgymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffai CRIDE ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â cride@ndcs.org.uk.

# Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl sy’n dilyn rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol i ddarparu'r ffigurau o 31 Ionawr 2025.

Mae ffigurau am AYB yn cynnwys AYB sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol (CG) ac AYB sydd o dan hyfforddiant am y CG neu sydd yn bwriadu hyfforddi o fewn tair blynedd.

Bwriad ffigurau ar gyfer poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau yw dangos lledaeniad darpariaethau adnoddau ar draws pob ardal. Fe'i cyfrifir drwy rannu nifer y plant byddar sy’n byw mewn ardal lle mae gwasanaeth yn gweithredu a nifer y darpariaethau adnoddau yn ardal gwasanaeth. Lle nad oes darpariaeth adnoddau yn yr ardal, arwyddir hyn gan gymhareb o’r boblogaeth yn yr ardal o 0. Dylid defnyddio gofal wrth ddehongli’r ffigurau hyn. Mewn rhai achosion, efallai gall y gymhareb gael ei dylanwadu gan bresenoldeb ysgolion arbennig yn yr ardal neu ddarpariaeth adnoddau eraill mewn ardaloedd cyfagos. Dylid nodi **nid** yw hyn yn fesur o’r nifer o’r lleoedd sydd ar gael yn, neu’r plant byddar unigol sydd wedi’u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi’u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

*Tabl 20: Data yn ôl awdurdod lleol*

| | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu | AYB sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol | AYB mewn darpariaethau adnoddau | AYB yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol | AYB yn gweithio'n hyblyg | Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont | 167 | 1 | 1 | 0 | 0.8 | 84:1 |
| Caerdydd | 264 | 4.4 | 6.8 | 0 | 0 | 132:1 |
| Sir Gaerfyrddin | 154 | 2.2 | 3 | 0 | 0 | 77:1 |
| Ceredigion | 55 | 1 | 1 | 0 | 0 | 55:1 |
| Gwynedd ac Ynys Môn | 117 | 2.5 | Dim darpariaeth adnoddau wedi'u nodi | 0 | 0 | 117:0 |
| Merthyr Tudful | 30 | 0.8 | Dim darpariaeth adnoddau wedi'u nodi | 0 | 0 | 30:0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 111 | 2 | 3 | 0 | 0 | 56:1 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint, Sir Dinbych, Wrecsam, Conwy) | 295 | 4.5 | 2.5 | 0 | 0.5 | 98:1 |
| Sir Benfro | 58 | 1 | Dim darpariaeth adnoddau wedi'u nodi | 0 | 0 | 58:0 |
| Powys | 99 | 2.8 | Dim darpariaeth adnoddau wedi'u nodi | 0 | 0 | 99:0 |
| Rhondda Cynon Taf | 135 | 2.6 | 1 | 1 | Dim wedi'i gofnodi | 135:1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| De Ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd) | 427 | 7 | 3.2 | 0 | 0 | 214:1 |
| Abertawe | 142 | 2 | 1.5 | 0 | 0 | 71:1 |
| Bro Morgannwg | 93 | 1 | 1.5 | 0 | 0.5 | 47:1 |